# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA651 - Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhagnodedig, etc.) (Cymru) 2016

## Cefndir a Phwrpas

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau diogelwch y cyhoedd rhag digwyddiadau o ryddhau dŵr heb reolaeth o gronfeydd dŵr.

Gwneir y Rheoliadau hyn dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, ac maent yn darparu ar gyfer:

– sut i gyfrifo capasiti cyforgronfa ddŵr fawr;

– cofrestru gwybodaeth am gyforgronfeydd dŵr mawr;

– adroddiadau CANC ynghylch cyforgronfeydd dŵr mawr;

– adroddiadau mae'n rhaid i ymgymerwyr cronfa ddŵr perygl uchel eu cadw;

– ffurf tystysgrifau, adroddiadau a chyfarwyddiadau peirianwyr;

– yr wybodaeth mae'n rhaid i beirianwyr ei darparu pan yn bwriadu adeiladu, neu ail-ddechrau defnyddio, cyforgronfa ddŵr fawr;

– adroddiadau mae'n rhaid i ymgymerwyr eu cadw, a'u hanfon at CANC, ynghylch digwyddiadau o ryddhau dŵr heb reolaeth o gyforgronfa ddŵr fawr pan fo mesurau brys yn cael eu cymryd.

Mae'r rheoliadau presennol ynghylch cofrestru, adrodd a chofnodi'n cael eu dirymu.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Craffu Technegol

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno dan Reol Sefydlog 21.2(vii) (mewn perthynas â’r offeryn hwn, gan ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn).

Mae Atodlen 5 yn rhagodi ffurf adroddiad ar gyfer arolygiad cyfnodol o gyforgronfa ddŵr fawr.

Mae'n ofynnol, dan y testun Saesneg, i gynnwys yn yr adroddiad (ymhlith pethau eraill), unrhyw argymhellion y gwêl y peiriannydd yn addas i'w gwneud ynghylch yr arolygiad nesaf. Nid yw'r testun Cymraeg yn cynnwys y gofyniad hwn.

Golyga hyn nad oes rhaid i adroddiad yn y Gymraeg gynnwys cymaint o wybodaeth ag adroddiad yn y Saesneg.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ystyriaeth gan y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2016. Nid oedd ymateb gan y Llywodraeth ar gael ar adeg y cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r craffu technegol uchod.